CYFRES B6

# amserbeibl

## Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Genesis 37: 1-11

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 37: 8

## Gwers 1 Bywyd Joseff – Y Breuddwydiwr Ifanc

Dyma basport Joseff.




**C Chwiliwch am y ffeithiau yn y Darlleniad o'r Beibl.**

Doedd brodyr Joseff ddim yn hoff iawn ohono.

5

**C Darllenwch adnod 2 a thicio'r ateb cywir i ddangos pam nad oeddent yn ei hoffi.**

Roedd Joseff yn glyfrach na'i frodyr. ☐
Roedd yn cario straeon drwg am ei frodyr i'w dad. ☐
Doedd e ddim yn siarad â nhw. ☐

1

Doedd Jacob, a oedd hefyd yn cael ei alw yn Israel, ddim yn ddoeth iawn. Roedd yn rhoi ffafriaeth i Joseff.

**C Ysgrifennwch enw Joseff uwch ben yr anrheg arbennig a roddodd ei dad iddo.**

1

**C Tanlinellwch y DDWY ffordd sy'n disgrifio orau sut roedd brodyr Joseff yn ei drin.**

Yn gwrtais Yn gas Yn garedig Yn genfigennus

2

Yn y cyfnod hwn, nid mewn tai roedd yr Hebreaid yn byw, ond mewn pebyll wedi'u gwneud o flew geifr. Roedd gan deulu Joseff lawer o ddefaid a geifr ac roedden nhw'n gorfod symud o le i le i chwilio am borfeydd newydd. Weithiau, roedd Joseff yn cael breuddwydion.

Roedd yn breuddwydio am bethau bob-dydd fel gweithio yn y caeau a'r sêr yn yr awyr. Yr adeg honno, roedd Duw yn aml yn siarad â phobl trwy freuddwydion.

**C Tynnwch lun ysgub Joseff i ddangos sut yr oedd yn wahanol i'r lleill**



1

**C Beth oedd ystyr y freuddwyd hon?**

2

**C Sut oedd y brodyr yn teimlo pan glywson nhw am y freuddwyd hon?**

1

Mae'r Adnod Allweddol yn dangos na ddylai'r brodyr fod wedi gadael i'w teimladau at Joseff droi'n genfigen ac yn gasineb. Mae angen help Duw arnon ni i gadw pechodau fel hyn rhag dinistrio'n bywydau ni.

**C Rhowch gylch am y pethau oedd yn ail freuddwyd Joseff.**

3

**C Beth oedd ystyr y freuddwyd hon? (Adnod 10)**

2

**C Roedd ei dad yn grac/flin â Joseff ond beth arall wnaeth e? (Adnod 11)**

1

**C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir a darllenwch adnod 19 i weld pa lysenw a gafodd Joseff.**

**W I D Y DD E U B R W** __ __ __ __ ____ __ __ __ __ __ __

1

Flynyddoedd wedyn, daeth y breuddwydion yn wir! Daeth Joseff yn ddyn pwysig iawn ac roedd hyd yn oed ei frodyr yn plygu o'i flaen! O'r dechrau'n deg, roedd gan Dduw gynlllun ar ei gyfer. Mae gan Dduw gynllun ar gyfer pawb ohonom ni hefyd! Ydych chi'n fodlon gwrando ar beth y mae'n ei ddweud wrthych yn y Beibl? Ydych chi'n trystio Duw i weithredu ei gynllun ar eich cyfer chi? Y cam cyntaf yw credu yn Iesu Grist fel eich Gwaredwr.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 37: 12-36

ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 6: 12

## Gwers 2 Bywyd Joseff – Y Brodyr yn ei Gasáu

Ar ôl peth amser, dywedodd Jacob wrth Joseff am fynd at ei frodyr i weld sut yr oedden nhw a'r defaid. Roedden nhw wedi teithio'n bell iawn i chwilio am borfa newydd ar gyfer yr anifeiliaid. I ffwrdd â Joseff. Ar ôl peth amser, daeth o hyd iddynt.

**C Ysgrifennwch beth ddywedodd ei frodyr pan welson nhw Joseff yn dod yn y pellter. .**




2

Dyna ofnadwy! Roedd eu casineb at Joseff wedi tyfu a thyfu. Dyna mae pechod yn ei wneud bob amser. **Mae'n dechrau'n fach ond, os na ofynnwn ni i Dduw faddau i ni a chael gwared â'r pechod, bydd yn tyfu nes ei fod yn cymryd drosodd yn ein bywydau ni!**

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Pan gyrhaeddodd Joseff, ceisiodd dau o'i frodyr gadw'r lleill rhag ei ladd.

**C Rhowch eu henwau yn y llefydd iawn.**

**Pwy ddywedodd**, "Peidiwch â'i ladd. Taflwch ef i'r pydew hwn"? (Adnodau 21 a 22)

2

_____

(Roedd yn bwriadu dod nôl i achub Joseff wedyn)

**Pwy ddywedodd**, "Gadewch i ni ei werthu"? (Adnodau 26 a 27)

_____ (Cytunodd ei frodyr)

# GRID GEIRIAU

**Llanwch y Grid Geiriau i gael gweld beth ddigwyddodd nesaf:-**

**I Lawr:**
1. Pwy gafodd ei daflu i'r pydew?

**Ar Draws:**
1. Tad Joseff
2. Pa anifeiliaid oedd yn dod yn y pellter?
3. Pwy oedd yn dod gyda'r anifeiliaid?
4. O ble roedden nhw'n dod?
5. I ble roedden nhw'n mynd?




6

Cytunodd y brodyr nad oedden nhw am ladd Joseff ac felly, tra oedd y brawd hynaf, Reuben, i ffwrdd – yn gofalu am y defaid mae'n debyg, cafodd Joseff ei werthu i'r Ismaeliaid.

**C** **Lliwiwch y label pris cywir ar Joseff yn dangos am faint o siclau, neu ddarnau arian, y cafodd ei werthu.**




1

**C** **Dyma restr o bump o bethau a ddigwyddodd ar ôl i Joseff gael ei werthu. Rhowch y rhifau o 1 i 5 arnynt i ddangos y drefn gywir.**

- ☐ Roedd hiraeth mawr ar Jacob am ei fab.
- ☐ Fe ddywedon nhw gelwydd wrth eu tad ac awgrymu bod anifeiliaid gwyllt wedi lladd Joseff.
- ☐ Aeth Reuben yn ôl ac roedd wedi dychryn cymaint nes iddo rwygo ei ddillad.
- ☐ Roedd Jacob yn credu bod Joseff wedi marw.
- ☐ Wnaethon nhw drochi côt Joseff yng ngwaed gafr.

5

**C** **Edrychwch ar y Darlleniad o'r Beibl ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth y marchnatwyr â Joseff.**

2

Daeth pechod y meibion â thristwch mawr i'w tad.
**Os ydyn ni'n gas i bobl neu'n genfigennus ohonynt, byddwn yn dod â thristwch i ni'n hunain, i eraill ac i Dduw ei Hunan**.
Yn nes ymlaen, dechreuodd y brodyr deimlo'n euog am yr hyn yr oedden nhw wedi'i wneud.
Ydych chi'n teimlo'n euog pan fyddwch wedi gwneud neu feddwl rhywbeth drwg?
**Mae'n bwysig iawn cyffesu ein pechodau wrth Dduw a rhoi ein ffydd yn Iesu Grist a fu farw ar y groes fel y gallai Duw faddau i ni a'n glanhau ni oddi wrth ein holl bechodau**.

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 39: 1-6
a 19-23

ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 39: 21

# Gwers 3 Bywyd Joseff – y Carcharor Ffyddlon

Roedd brodyr Joseff yn meddwl ei fod wedi mynd am byth. Efallai eu bod nhw wedi anghofio amdano, ond roedd Duw yn dal i'w gofio!

**C Llanwch y bylchau o'r Darlleniad o'r Beibl i weld beth ddigwyddodd i Joseff.**

Gwerthodd yr Ishmaeliaid Joseff i P_____, sef un o swyddogion

Ph_____. Aeth Joseff i fyw yn ei dŷ a daeth yn was neu'n gaethwas iddo.

Er bod Joseff yn bell wrth ei dad a'i f _____ , doedd e ddim ar ei ben ei hunan.

3

**C Llanwch y bylchau yn y brawddegau hyn**

1. __ab __rbennig
2. __aethwas __yddlon
3. __was __wyddiannus




1

**C Ysgrifennwch y rhif cywir yn y blwch ar y map yn y lle mwyaf perthnasol.**

3

**C Enwch y gwledydd yn C _ _ _ _ _ (Genesis 37: 1) ac Yr A _ _ _**

2

Roedd Jacob, tad Joseph, wedi ei ddysgu i garu Duw ac, yn awr, ymhell i ffwrdd, mewn gwlad estron, dysgodd Joseff ei bod yn rhaid iddo drystio Duw a bod yn ufudd iddo bob dydd. Rhaid i ninnau ddysgu i wneud hynny pan ddown yn Gristnogion.

**C A oedd Joseff ar ben ei hunan bach? Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael gwybod yr ateb.**




2

Roedd yr Arglwydd yn arbennig o dda wrth deulu Potiffar gan fod Joseff yn byw gyda nhw.

**C Chwiliwch am y gair yn dechrau gyda 'B' sy'n dangos bod Duw wedi bod yn dda wrth Potiffar ac ysgrifennwch ef isod:-**

1

B __ __ __ __ ___ __ __ ___ yr Arglwydd dŷ'r Eifftiwr er mwyn Joseff.

Roedd popeth yn mynd yn iawn i Joseff yn nhŷ Potiffar ond, un diwrnod, dywedodd gwraig Potiffar gelwydd am Joseff. Trefnodd Potiffar i Joseff gael ei restio a'i daflu i garchar ond roedd Duw'n dal i ofalu am Joseff!

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a THANLINELLU y geiriau sy'n dweud wrthym nad oedd Joseff ar ei ben ei hunan.**

3

Hyd yn oed yn y carchar, fe wnaeth Joseff ei orau. Wnaeth e ddim pwdu a rhoi ei ben yn ei blu. Gwyddai nad oedd ar ei ben ei hunan a bod Duw gydag ef felly gwnaeth ei orau i blesio Duw. Rhaid i Gristnogion wneud eu gorau bob amser i blesio Duw.
Roedd Joseff yn was ffyddlon. Roedd yn ddyn cyfrifol y gallech ymddiried ynddo, yn nhŷ Potiffar ac yn y carchar.
Mae'r llun nesaf yn dangos sut amser gafodd Joseff yn nhŷ Potiffar.



## TŶ POTIFFAR - Adnodau 1 – 6

Adnod 2 – Bu'r Arglwydd gyda Joseff
Adnod 2 – Daeth Joseff yn ŵr llwyddiannus.
Adnod 4 – Cafodd Joseff ffafr yng ngolwg ei feistr.
Adnod 6 – Gadawodd Potiffar ei holl eiddo yng ngofal Joseff.

Yn rhyfedd iawn, roedd y sefyllfa'n debyg iawn yn y carchar.

**C Edrychwch ar y llun o'r carchar a nodwch rifau'r adnodau.**

## Y CARCHAR - Adnodau 19 – 23



Adnod___ Yr oedd yr Arglwydd gyda Joseff.
Adnod ___ Bu'r Arglwydd yn drugarog wrtho
Adnod ___ Rhoddodd yr Arglwydd ffafr i Joseff yng ngolwg ceidwad y carchar.
Adnod ___ Rhoddwyd yr holl garcharorion yng ngofal Joseff.
Adnod ___ Joseff oedd yn gwneud popeth oedd i'w wneud yn y carchar.

5

Roedd Joseff yn ymddiried yn yr Arglwydd ac yn ufudd iddo bob amser.
**Ydych chi am fod fel Joseff, yn gwneud eich gorau i blesio Duw bob amser?**

Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 41: 14-49

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 41: 32

# Gwers 4 Bywyd Joseff – yr Arweinydd Newydd

Roedd dau o swyddogion y brenin yn y carchar ar yr un pryd â Joseff ac fe gafodd y ddau freuddwyd. Cafodd Joseff help gan Dduw i esbonio ystyr y ddwy freuddwyd ac fe ddaeth esboniad Joseff yn wir yn y ddau achos. Roedd Joseff wedi gofyn i'r bwtler, sef y pen-trulliad, ddweud gair drosto wrth y Brenin pan âi yn ôl i'r palas ond anghofiodd y bwtler wneud hynny ac ni wnaeth ddim i helpu Joseff am ddwy flynedd!
Ond roedd Duw'n dal gyda Joseff. Oherwydd y profiad o fod yn y carchar, roedd Joseff yn trystio Duw yn llwyr. Daeth ei ffydd yn gryfach o lawer a, cyn hir, byddai'n arweinydd da a doeth.
Fe gawn ni olwg yn awr ar y ddwy freuddwyd oedd yn poeni Pharo, brenin yr Aifft. Doedd neb o'r dynion doeth oedd yn gweithio iddo yn gallu eu deall ac felly galwyd ar Joseff i ddod o'r carchar i esbonio'r breuddwydion.

1

**C Gan bwy gafodd Joseff help i esbonio'r breuddwydion?**

**C Allwch chi helpu Beca i ddatrys pos y breuddwydion?**




2

Felly, yr un ystyr oedd i'r ddwy freuddwyd!

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a rhowch gylch o gwmpas enw'r un a oedd yn rheoli popeth a ddigwyddodd.**

3

Awgrymodd Joseff gynllun wrth Pharo.

**C Rhowch ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn Gywir neu'n Anghywir:-**

Roedd Pharo am reoli popeth ei hunan. .....
Byddent yn cadw bwyd oedd dros ben o'r blynyddoedd da i'w fwyta yn y blynyddoedd gwael. .....
Doedd Pharo ddim yn credu'r hyn a ddywedodd Joseff. .....
Dywedodd Pharo nad oedd Joseff yn ddoeth. .....

4

**C** **Rhoddodd Pharo bedair anrheg i Joseff i ddangos pa mor bwysig oedd e. Beth oedd yr anrhegion hyn? (Adnodau 42 a 43)**

| | |
|---|---|
| 1 | 2 |
| 3 | 4 |

4

Felly, mewn un diwrnod, roedd Joseff wedi dod o'r carchar i balas Pharo!
Roedd Duw wedi rhoi gwaith pwysig iawn iddo fel rhan o'i gynllun mawr.

**C** **Faint oedd oed Joseff? Tynnwch linell trwy'r rhifau ANGHYWIR, gan adael oedran Joseff yn unig. (Adnod 46)**

20 30 50 60 70

1

Roedd Joseff wedi bod yn was ffyddlon i Dduw ac roedd Duw wedi gofalu amdano trwy lawer o brofiadau. Ni wnaeth Duw anghofio amdano na'i siomi. Gallwn ni ddibynnu ar Dduw i fod yn driw i ni os byddwn ninnau'n ymddiried ynddo fel y gwnaeth Joseff.

**C** **Mae'r pos olaf yn crynhoi popeth a ddigwyddodd i Joseff.**

**Rhowch bob un o'r lluniau isod yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau o 1 i 5 yn y blychau.**

Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddigwyddodd yn y gwahanol lefydd.

| | | |
|---|---|---|
| Y Pydew | | |
| Tŷ Potiffar | | |
| Cartref Joseff | | |
| Palas Pharo | | |
| Y Carchar | | |

5

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn



Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

**Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120